AMGUEDDFA CYMRU

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:<br>Title of meeting:** | **Amgueddfa Cymru – Cyfarfod Agored Bwrdd yr Ymddiriedolwyr** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:<br>Date of Meeting:** | **Dydd Iau 27 Mehefin 2024, 9.30am – 1:15pm** |
| **Lleoliad:<br>Venue:** | **Gwesty Padarn, Llanberis** |
| **Aelodau'r Bwrdd yn bresennol:** | Kate Eden (Cadeirydd)<br>Rhys Evans (Is-gadeirydd)<br>Hywel John (Trysorydd)<br>Jan Williams<br>John Hunt<br>Richard Thomas<br>Cai Wilshaw<br>Freya Stannard<br>Llion Iwan<br>Daniel Richards<br>David Jones<br>Owen Hathway<br>Ameerah Mai |
| **Aelodau o'r Tîm Gweithredol yn bresennol:** | Jane Richardson, Prif Weithredwr<br>Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau<br>Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth<br>Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu<br>Nia Elias, Cyfarwyddwr Perthnasoedd a Marchnata<br>Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil |
| **Unigolion ychwanegol yn bresennol:** | Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol<br>Rhodri Davies, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu<br>Catrin Roberts, Pennaeth Cynllunio a Materion Allanol<br>Ian Williams, Llywodraeth Cymru<br>Lowri Gwyn (Cyfieithydd) |
| **Datganiadau o fuddiant:** | Cadarnhaodd J Hunt fod ei ddatganiad wedi'i ddiweddaru yn dilyn penodiad diweddar fel Ymddiriedolwr Maint Cymru. |
| **Ymddiheuriadau:** | Abigail Lawrence, Ymddiriedolwr<br>Emma Yhnell, Ymddiriedolwr<br>Philip Westcott, Ymddiriedolai Cysgodi, Cynllun Llywodraeth Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Anahita Almasian, Gweinyddwr Llywodraethu |

**Eitem 1. Agor y cyfarfod**

Cyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau. Hefyd, nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi cael prynhawn a noson lwyddiannus iawn yn Amgueddfa Lechi Llanberis y diwrnod cynt, gyda sesiwn ddatblygu dda iawn yn cynnwys ymweliad safle cynhwysfawr a thaith o amgylch yr ailddatblygiad arfaethedig, taith i Ysbyty'r Chwarel a sesiwn strategaeth yn Offis Fawr. Diolchodd i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o lunio'r agenda ar gyfer y ddau ddiwrnod diwethaf, yn enwedig Elen Roberts, Rheolwr Safle'r Amgueddfa Lechi, a Helen Goddard, Cyfarwyddwr Project ar gyfer ailddatblygu Llanberis.

**PENDERFYNWYD: Nodi ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiannau.**

## Strategol - Strategic

**Eitem 2. Llunio Ein Dyfodol – Cam Dau a beth yw'r nod?**

Noddwr a chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr a Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

Cyflwynodd JR ddiweddariad yn erbyn y rhaglen Llunio ein Dyfodol, gan gynnwys:

- Mae pontio o gam 1 i gam 2 wedi bod yn heriol gyda llai o staff
- Ymgynghoriadau gyda staff Blaen Tŷ yn dal i fynd rhagddynt
- Bydd newidiadau contractiol yn ein galluogi i fod yn fwy hyblyg
- Mae cam 2 wedi'i lansio gyda staff a ffrydiau gwaith wedi'u sefydlu

Dyma'r 3 ffrwd waith ar gyfer cam 2:

- Casgliadau
- Ffyrdd o weithio
- Adolygu a Dysgu

Trafododd ymddiriedolwyr y gwersi o raglen newid 2015/16. Awgrymodd adborth gan staff fod y mwyafrif yn teimlo bod y gwaith yn parhau heb fawr o sylw i'r newid mewn capasiti. O ganlyniad, mae'r tîm bellach yn cwblhau taenlen (*beth fyddwn ni'n rhoi'r gorau i'w wneud, yn dechrau ei wneud ac yn ei wneud yn wahanol*) i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu nodi o fewn llwyth gwaith y gellir ei reoli. Cynhelir sesiwn friffio staff ar 24 Gorffennaf i gyflwyno'r daenlen a thrafod beth i'w atal, ei ddechrau, a'i wneud yn wahanol. Hefyd, mae staff wedi gofyn inni edrych ar gydnabyddiaeth a gwobrwyo - mae adborth gan yr arolwg staff yn dweud bod pobl eisiau canmoliaeth anffurfiol, a'n bod ni'n datblygu diwylliant gwahanol. Rydym yn edrych ar yr hyn y gellir ei wneud, megis cydnabod gwasanaeth hir.

Trafodwyd mesurau llwyddiant, gan gynnwys defnyddio cyfarfodydd ac arolygon staff fel mesur allweddol ffurfiol. Cadarnhaodd JR fod SET yn gweithio gyda thimau i ddarparu mannau diogel i ddatrys unrhyw broblemau.

**Gwahoddodd y Cadeirydd y cyfarwyddwyr i amlinellu newidiadau allweddol ym mhob un o'u cyfarwyddebau:**

*Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu –*

- Mae'r portffolio yn cynnwys Penaethiaid pob Amgueddfa, y Pennaeth Mentrau, y Pennaeth Dysgu, a'r Pennaeth Ymgysylltu. Rydym yn dod â phob agwedd ar brofiad ymwelwyr sy'n ymwneud â'r cyhoedd at ei gilydd. Rydym wedi creu Pennaeth Amgueddfa ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a byddwn yn canolbwyntio ar y Rhaglen Digwyddiadau o bob amgueddfa.
- Mae disgrifiadau swydd wedi'u haddasu, gan gynnwys gwneud disgrifiadau swydd Penaethiaid Amgueddfeydd yn fwy strategol a chynyddu'r pwyslais ar brofiad ymwelwyr gyda rolau blaen tŷ (o Gynorthwywyr Amgueddfa i Gynorthwywyr Profiad Ymwelwyr).
- Rydym yn gweithio gyda'n Hundebau Llafur ac yn dal i ymgynghori â'r Cynorthwywyr Profiad Ymwelwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe a Sain Ffagan.
- Hefyd, fe wnaethom ni greu Pennaeth Diogeledd, Iechyd a Diogelwch i ddarparu dull cyson a chyfannol ar draws amgueddfeydd. Mae'r rôl hon yn cael ei chyflawni gan y Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth a bydd yn gweithio ochr yn ochr â Phenaethiaid Amgueddfeydd.
- Bydd oriau agor yr amgueddfa yn cael eu cwtogi 1 awr am bedwar mis dros y gaeaf, gan ddechrau ym mis Tachwedd.

*Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil –*

- Adran Gelf – wedi creu tîm sy'n gyfrifol am broject yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol ac sy'n gweithio yn yr adran Gelf. Bydd y Cyfarwyddwr Creadigol yn symud i rôl Pennaeth Celf.
- Gwyddorau Naturiol – wedi cyfuno â'r Tîm Ymchwil. Mae'r tîm gwyddoniaeth wedi cael ei ailwampio ac yn canolbwyntio o'r newydd ar heriau'r argyfwng hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae timau'n ymwneud llawer mwy â'r cyhoedd ar yr heriau hyn bellach. Mae pwyslais newydd ar ymgysylltu â chymunedau.
- Hanes a Datblygu Casgliadau - bydd y tîm hwn yn canolbwyntio o'r newydd ar gyflawni'r Strategaeth Datblygu Casgliadau a datblygu'r casgliadau hynny gydag amrywiaeth o gymunedau. Bydd dull newydd o ymdrin â hanes llafar hefyd - o ran gwneud y gorau o'n casgliad presennol a datblygu straeon newydd ac amrywiol.
- Mae'r tîm arddangosfeydd bellach yn rhan o'r Is-adran Casgliadau ac Ymchwil - mae hyn yn cael effaith fuddiol ar unwaith o ran gweithio trawsadrannol a datrys problemau'n greadigol a chyflym.
- Mae timau cadwraeth bellach yn rhan o'r timau curadurol. Unwaith eto, mewn rhai meysydd, mae manteision y newid hwn yn cael eu gwireddu'n gyflym ac arferion gwaith symlach yn dechrau dod i'r fei. Mae mwy o waith i'w wneud

mewn meysydd eraill - yn enwedig mewn perthynas ag ymateb i ofynion penodol y safle.

*Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau –*

- Colli rhai staff cyllid, sy'n rhoi cyfleoedd i gyflwyno'r sgiliau priodol a model partner busnes i mewn.
- Adran Adnoddau Dynol llai o faint, a fydd yn edrych ar alluogwyr meddalwedd i lywio gwelliannau.
- Colli sgiliau ym maes digidol sy'n rhoi cyfle i ni gyflwyno'r sgiliau priodol a modern sydd eu hangen i fwrw rhagddi â'r agenda ddigidol.

*Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth –*

- Mae timau wedi'u hailstrwythuro ac mae'r ffordd rydym ni'n rheoli pobl yn newid. Mae sgiliau arbenigol bellach yn cael eu hystyried yn rhywbeth i'w rannu gyda ffocws newydd ar uwchsgilio.
- Mae'r tîm adeiladau wedi trosglwyddo draw, gan ganiatáu inni reoli adeiladau hanesyddol ac amgueddfeydd gyda'i gilydd.
- Rhoddwyd diweddariad ar y Pennaeth Diogeledd ac Iechyd a Diogelwch newydd, y Pennaeth Cynaliadwyedd newydd, a chynlluniau recriwtio i gryfhau tîm ailddatblygu Llanberis

**Trafodaeth – holi ac ateb**

1. Trafododd ymddiriedolwyr y newidiadau allweddol ym mhob cyfarwyddiaeth gan gynnwys lle mae'r risgiau mwyaf yn sgil ad-drefnu a llai o staff, a ffactorau lliniaru. Cadarnhaodd JR y byddai hyn yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r llif gwaith Adolygu a Dysgu.
2. Trafodwyd gwaith cynhyrchu incwm, gan gynnwys diogelu gwaith gydag Ymddiriedolaethau a Sefydliadau yn y strwythur newydd. Nid yw corfforaethol yn cael ei ystyried yn faes sy'n creu incwm sylweddol ac felly mae angen i'r gwaith hwn fod yn gymesur. Fodd bynnag, o dan y dull newydd mae pawb yn yr adran yn fedrus o ran perthnasoedd a chyllid.
3. Caeodd JR y drafodaeth trwy ddweud bod Amgueddfa Cymru yn symud i ddull mwy cyfannol, gan ddod â phobl ynghyd i gydweithio mwy. Mae mwy o bwyslais ar y safleoedd a'r arbenigedd sy'n gweithio'n uniongyrchol yn ein safleoedd.

**PENDERFYNWYD: DERBYN a CHYTUNO ar y papur Cam 2 a'r nod.**

---

**Eitem 3. Cyllideb a Chynllun Gweithredol 24/25**

**3a. Cyllideb**

Noddwr a chyflwynydd: Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

1. Nododd PH gyllideb arfaethedig 2024/25 sef GIA gwerth £25.5m gyda chyfalaf gwerth £5m. Mae rheolaethau sefydliadol ar waith i sicrhau toriadau i leihau costau ar ôl y gyllideb.

**Trafodaeth – holi ac ateb**

1. Awgrymwyd y dylid datblygu adroddiad cynhyrchu incwm ynghyd â sgôr RAG, i'r Bwrdd gael craffu arno ynghyd â'r diweddariad ariannol.
2. Dull clir o adrodd am gronfeydd wrth gefn yn y dyfodol i gael ei ddatblygu.

Croesawodd JR yr adborth a gwerthfawrogodd y gymeradwyaeth ar gyfer eleni a'r ystyriaeth o'r hyn a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer adroddiadau'r flwyddyn nesaf.

**CRYNODEB O GAMAU GWEITHREDU:**

1. Tîm ariannol i edrych ar ddatblygu dull dangosfwrdd ar gyfer adroddiadau'r dyfodol o fis Ebrill 2025 ymlaen
2. Adroddiadau data'r dyfodol ar gynhyrchu incwm i ystyried datblygiad statws RAG yn erbyn targedau
3. Datblygu sefyllfa wrth gefn i'w dirprwyo i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad newydd
4. EC i ymchwilio i sesiwn bosibl y Bwrdd ar newid diwylliannol ar gyfer mis Medi
5. EC i edrych ar galendr y Bwrdd o ymweliadau safle ar gyfer y flwyddyn i ddod.
6. Adran Gyfathrebu i baratoi nodyn briffio byr ar doriadau diweddar yn y gyllideb a'r effaith gysylltiedig

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO cyllideb 24/25.**

---

**3b. Cynllun Gweithredol**

Cyflwynodd JR Gynllun Gweithredol arfaethedig 2024/25, gan atgoffa aelodau'r Bwrdd fod hwn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ar ffurf ddrafft yn flaenorol.

**Trafodaeth – holi ac ateb**

1. Trafodwyd targedau dangosydd perfformiad allweddol, a nodwyd y pwyntiau canlynol:
   - Mae dangosyddion perfformiad allweddol wedi cael eu cytuno ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac fe'u trafodir mewn cyfarfodydd monitro chwarterol.
   - Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu gan gydnabod yr angen i fesur effaith.
   - Gwnaed awgrym i ddefnyddio dull dangosfwrdd ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol â sgôr RAG.
   - Gallai ystyried datblygu, er enghraifft, chwe ymrwymiad allweddol
   - Angen ystyried rolau'r is-bwyllgorau newydd wrth fonitro dangosyddion perfformiad allweddol.

- Ystyried diweddaru'r gofrestr risg yng ngoleuni unrhyw newidiadau i ddangosyddion perfformiad allweddol.
2. Mae'n rhaid i ni fod yn glir ynghylch rôl Amgueddfa Cymru. Awgrymwyd datblygu cynllun gweithredu gyda phartneriaid a llywodraethu a gofyn i gomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol ei adolygu.

**CRYNODEB O GAMAU GWEITHREDU:**
1. JR i ystyried datblygu dull dangosfwrdd ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol gyda chynllun peilot i'w gyflwyno ar adeg briodol
2. EC i ystyried defnyddio strwythurau pwyllgorau newydd i gynnal archwiliad dwfn o agweddau ar y cynllun gweithredol.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO Cynllun Gweithredol 24/25.**

---

**Eitem 4. Adroddiad Cyllid diwedd mis Mai**

Noddwr a chyflwynydd: Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

Amlinellodd PH adroddiad cyllid diwedd mis Mai. Nodwyd nad oedd unrhyw symudiadau niweidiol i'w hadrodd.

**PENDERFYNWYD: DERBYN a NODI adroddiad cyllid diwedd mis Mai.**

---

**Eitem 5. Strategaethau Pobl, Cynhyrchu Incwm a Chyllid – diweddariad**

Noddwr a chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol, Nia Elias, Cyfarwyddwr Codi Arian, a Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

**Trafodaeth ar y PowerPoint a gyflwynwyd:**
1. Mae'r tair strategaeth yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, disgwylir drafftiau erbyn mis Rhagfyr/Ionawr, a byddant yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Mawrth y Bwrdd i'w cymeradwyo.
2. Mae meysydd ychwanegol eto i'w hymgorffori mewn fersiynau'r dyfodol, gan gynnwys:
    - Sgiliau - nodi sgiliau newydd sy'n ofynnol ar gyfer Amgueddfa Cymru a lle mae bylchau o ran sgiliau ar hyn o bryd.
    - Ystyried y gofyniad i staff 'stopio gwneud, dechrau gwneud, gwneud yn wahanol'

Atgoffodd JR y Bwrdd o bwysigrwydd creu dadl gref dros barhau i fuddsoddi mewn GIA a chael mwy o allu i gynhyrchu incwm a'r cyfleoedd y gallai hyn eu cyflwyno i Amgueddfa Cymru.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO cyfeiriad y tair strategaeth yn y dyfodol.**

---

**5b. Strategaeth Amgueddfa Cymru – atodiad**

Noddwr a chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

Cyflwynodd JR yr atodiad i strategaeth gyfredol Amgueddfa Cymru. Gofynnwyd am gymeradwyaeth ffurfiol.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO'R Atodiad i Strategaeth Amgueddfa Cymru.**

**Eitem 6. Diweddariad gan y Prif Weithredwr**

Noddwr a chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

Cyflwynodd JR ei hadroddiad Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD: NODI diweddariad y Prif Weithredwr.**

**Eitem 7. Diweddariad gan y Cadeirydd**

Noddwr a chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Cyflwynodd KE ei hadroddiad Cadeirydd. Nododd fod adroddiad diweddaraf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ar y setliad yr ymrwymwyd iddo gan Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru yn dilyn ymadawiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol wedi'i gyhoeddi a chadarnhaodd i'r bwrdd y byddai'n ymateb yn llawn i holl argymhellion yr adroddiad ar gyfer Amgueddfa Cymru.

**PENDERFYNWYD: NODI diweddariad y Cadeirydd.**

## Corfforaethol – Corporate

**Eitem 8. Cytundeb wedi'i ddiweddaru gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams**

Noddwr a chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

1. Nododd KD fanylion y cytundeb wedi'i ddiweddaru gan nodi pwysigrwydd y berthynas gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams (DWT) dros nifer o flynyddoedd. Mae diweddaru'r cytundeb wedi bod yn gyfrwng i adnewyddu'r berthynas gyda'r partner hanfodol hwn.
2. Mae'r cytundeb wedi'i ddiweddaru yn llawer cliriach ar yr amcanion priodol ar gyfer pob sefydliad
3. Mae newidiadau allweddol yn y cytundeb yn cynnwys:
    - Mae swydd curadur DWT wedi'i hadnewyddu a'r disgrifiad swydd wedi'i ddiwygio. Negodwyd cynnydd yn y ganran a gefnogir ar gyfer y rôl hon i 40%, a fydd yn parhau i gynyddu gydag unrhyw newidiadau sylfaenol.
    - Mwy o eglurder ynghylch defnyddio cyllid gyda metrigau clir o fewn y cytundeb.
    - Mae'r cytundeb yn cyfeirio at arddangosfa ddathlu bosibl yn 2029.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO'R cytundeb wedi'i ddiweddaru.**

**Eitem 9. Cyflawni yn erbyn y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Noddwr a chyflwynydd: Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu

1. Cyflwynodd NW y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan nodi'r cydweithio ag amgueddfeydd a rhwydweithiau eraill yn y sector.
2. Nodwyd cyfleoedd i recriwtio mwy o amrywiaeth i weithlu Amgueddfa Cymru.
3. Nododd y gwaith partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru a'r cyfarfod blynyddol ar y cyd rhwng Amgueddfa Cymru a Chyngor y Celfyddydau sydd ar y gweill i adolygu'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad. Gwahoddwyd yr holl Ymddiriedolwyr i ddod i'r cyfarfod a chawsant eu hannog i wneud hynny.
4. Nododd NW y gwaith i wreiddio elfennau gwrth-hiliaeth yng ngwaith Amgueddfa Cymru drwyddo draw, a chyfeiriodd yn benodol at broject Safbwyntiau sy'n agor yn fuan yn Sain Ffagan. Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar fodelau gweithio gwahanol gyda chymunedau amrywiol ledled Cymru.

**Trafodaeth – holi ac ateb:**

1. Nodwyd gwaith parhaus gyda chymunedau sipsiwn a theithwyr.
2. Ystyried gweithio gyda grwpiau eraill i annog pŵer cyfartal llais cyfartal.
3. Cadarnhaodd NW fod Amgueddfa Cymru a Chyngor y Celfyddydau yn dal i weithio gyda'r grwpiau a ysgrifennodd yr adroddiadau cychwynnol a wnaeth lywio datblygiad yr adroddiad Ehangu Ymgysylltiad ac y byddai nifer yn bresennol yn y cyfarfod ar y cyd â Chyngor y Celfyddydau yr wythnos ganlynol.
4. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo gyda Chyngor y Celfyddydau i ddatblygu'r camau nesaf mewn perthynas â'r cynllun gweithredu Ehangu Ymgysylltiad presennol.

**PENDERFYNWYD: Ystyried a DERBYN SICRWYDD am y diweddariadau.**

**Eitem 10. Adroddiad Blynyddol ar Wirfoddoli**

Noddwr a chyflwynydd: Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu

1. Cyflwynodd NW yr Adroddiad Blynyddol ar Wirfoddoli gan nodi'r cynnydd cadarnhaol a wnaed dros y flwyddyn, gyda chynnydd yn nifer y

gwirfoddolwyr sy'n groes i'r duedd ar draws y sector treftadaeth yn y DU. Nodwyd bod gwaith partneriaeth eang ar draws y sector gwirfoddol ac amrywiaeth oedran gwirfoddolwyr yn allweddol i'r llwyddiant hwn.

2. Diolchodd NW i'r ymddiriedolwr Ameerah Mai am ysgwyddo rôl Hyrwyddwr Gwirfoddolwyr ar y Bwrdd ac roedd yn edrych ymlaen at weithio gyda hi yn y rôl hon.

**Trafodaeth – holi ac ateb:**

1. Cynhaliwyd trafodaeth ar strategaethau'r dyfodol ar gyfer llwyddiant yn y gofod gwirfoddoli, yn benodol, sut i adeiladu ar y cynnydd a welwyd yn y flwyddyn ddiwethaf.

   Yng nghyd-destun ymweliad y Bwrdd â Llanberis, nodwyd bod Helen Goddard, Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y project ailddatblygu yn yr Amgueddfa Lechi, wrthi'n edrych ar gyfleoedd i ddatblygu ymhellach ein partneriaethau niferus ledled ardal a rhanbarth Llanberis.

Ategodd KE ddiolchiadau NW i AM am gytuno i fod yn Hyrwyddwr Gwirfoddolwyr ar y Bwrdd.

**PENDERFYNWYD: Ystyried a DERBYN SICRWYDD ar yr Adroddiad Blynyddol.**

---

**Eitem 11. Adroddiad Diweddaru Chwarterol ar Ddatblygu Cynaliadwy**

Noddwr a chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth

1. Cyflwynodd PB yr adroddiad diweddaru gan nodi bod Victoria Hillman wedi'i phenodi'n Arweinydd Cynaliadwyedd newydd yn ddiweddar.
2. Yn ogystal ag arian refeniw a chyfalaf GIA, derbynnir cyllid Grant ychwanegol ar gyfer projectau datgarboneiddio penodol. Y llynedd dechreuodd tri phroject yn Big Pit, Drefach ac Abertawe sydd wedi helpu i ysgogi gwelliant/gostyngiad amlwg yn y defnydd o nwy naturiol.
3. Mae'r amgueddfa'n derbyn £300k arall eleni i gwblhau'r projectau datgarboneiddio hyn. Gobeithio y bydd rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo'r projectau pwysig hyn.
4. Mae cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru i wella effeithlonrwydd ailgylchu wedi bod yn effeithiol. Mae biniau newydd bellach ym mhob un o safleoedd yr amgueddfa, at ddefnydd staff ac ymwelwyr.

**Trafodaeth – holi ac ateb:**

1. Mae cyllid datgarboneiddio wedi darparu llawer o gyfleoedd ar draws Amgueddfa Cymru, ond mae'r defnydd o'r arian yn benodol iawn.

2. Mae cyfarfodydd rheolaidd ar waith gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i nodi unrhyw grantiau neu fenthyciadau ychwanegol posibl er mwyn helpu Amgueddfa Cymru i barhau i ddatgarboneiddio ac ymchwilio i fentrau cynaliadwyedd fel trafnidiaeth.

**CRYNODEB O GAMAU GWEITHREDU:**

1. Victoria Hillman i ymuno â hyfforddiant y Bwrdd yn Big Pit.

**PENDERFYNWYD: Ystyried a DERBYN SICRWYDD am hyn.**

---

**Eitem 12.** Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Cyflwynydd: Ian Williams, Llywodraeth Cymru

Rhoddodd IW yr wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, gan gydnabod pa mor anodd oedd y toriadau diweddar yn y gyllideb i bawb ar draws y sector celfyddydau, treftadaeth a diwylliannol. Cydnabu allu Amgueddfa Cymru i gyflawni yn unol â'r targed, gan nodi ei bod yn meithrin enw da a chryf gan roi hyder i Lywodraeth Cymru fuddsoddi.

Nododd JR mai hwn fyddai cyfarfod Bwrdd olaf IW gydag Amgueddfa Cymru gan ei fod yn symud i rôl newydd yn Llywodraeth Cymru. Nododd y bartneriaeth waith agos a'r cyfathrebu gwych a ddatblygwyd gydag IW a'r tîm corff noddedig, a diolchodd iddo am ei gyfraniadau.

**PENDERFYNWYD: NODI'R diweddariad.**

## Safleoedd a Phrojectau Mawr - Sites and Major Projects

**Eitem 13. Achos Busnes ar gyfer Rhaglen Cynnal a Chadw yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**

Noddwr a chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth

1. Rhoddodd PB ddiweddariad ar yr achos busnes ar gyfer y rhaglen gynnal a chadw yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan nodi bod hyn yn dilyn diweddariad manwl diweddar a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau.
2. Mae'r cais cychwynnol am gyllid wedi'i rannu gyda Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd cais am fwy o wybodaeth. Cadarnhawyd wedyn y bydd angen i Amgueddfa Cymru fynd drwy'r broses achos busnes pum cam, a fydd yn cymryd peth amser. Fodd bynnag, mae'r asesiad proffil risg wedi'i gwblhau a'r broses o gyflwyno'r cynnig cam nesaf bellach wedi dechrau.

3. Mae dogfen ar wahân yn cael ei pharatoi ar gyfer y cyllid brys a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn ddiweddar.  Bydd y ddogfen hon yn cael ei rhannu gyda'r Bwrdd maes o law.

**Trafodaeth – holi ac ateb:**

1. Trafodwyd yr ôl-groniad cynnal a chadw a'r gofyniad cyfalaf sylweddol yn fanwl.

**PENDERFYNWYD: Ystyried a DERBYN SICRWYDD ar y diweddariad ar yr achos busnes.**

---

**Eitem 14. Diweddariad ar Ailddatblygu Llanberis**

Noddwr a chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth

1. Gan fod y Bwrdd wedi treulio'r prynhawn blaenorol yn ystyried manylion project ailddatblygu Llanberis, amlinellodd PB gynnydd y project yn fyr. Nododd fod rheoli llif arian yn cael ei fonitro'n agos.

**Trafodaeth – holi ac ateb:**

1. Trafodaeth ar amseriad arian y loteri a dechrau gweithgareddau.

**PENDERFYNWYD: Ystyried a DERBYN SICRWYDD ar y diweddariad.**

---

**Eitem 15. Y diweddaraf am Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru (Oriel Celf Gyfoes)**

Noddwr a chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

1. Mae sawl arddangosfa allweddol wedi'u cyflwyno drwy raglen yr Oriel Celf Gyfoes. Y nesaf fydd arddangosfa Bedwyr Williams ym Mhlas Glyn-y-Weddw, a fydd yn cael ei hagor gan JR ddiwedd Gorffennaf 2024.
2. Yn gynharach yn yr wythnos roedd yr Uwch Dîm Gweithredol wedi cwrdd â chyfarwyddwyr y 4 oriel bartner ar draws y Gogledd. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol iawn.
3. Cynhaliwyd trafodaeth ar y rhagolygon cyflawni ar gyfer gwaith yr Oriel Celf Gyfoes yn y dyfodol ar ôl i'r cyllid ddod i ben ym mis Mawrth 2025.

**PENDERFYNWYD: Ystyried a DERBYN SICRWYDD ar y diweddariad.**

## Llywodraethu - Governance

**Eitem 16. Adolygu Cofnodion**
Noddwr a chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Adolygwyd y cofnodion a'r materion a gododd o gyfarfod agored y Bwrdd a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024 a nodwyd y pwyntiau canlynol:

1. Y Pennaeth Adnoddau Dynol i'w newid i Bennaeth Cyllid (pwynt 33).
2. Cadarnhad bod y ffioedd ychwanegol sy'n daladwy i Archwilio Cymru am yr Adroddiad Budd y Cyhoedd wedi'u cymeradwyo yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, yn amodol ar JR yn ysgrifennu i Archwilio Cymru yn nodi pryderon y Bwrdd am y diffyg manylder yn yr anfoneb. Roedd y llythyr wedi ei ddosbarthu i'r Bwrdd. Nid oedd unrhyw ymateb wedi dod i law gan Archwilio Cymru, ond nodwyd bod Arweinydd Ymgysylltu newydd bellach yn ei swydd a bod JR a KE yn gobeithio cwrdd ag ef yn fuan.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO'R cofnodion a'r camau gweithredu a gododd o'r cyfarfod agored a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024, yn amodol ar y diwygiadau a amlinellir ym mhwynt 1 uchod.**

---

**Eitem 17. Adolygu'r Log Gweithredu Agored**
Noddwr a chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Adolygwyd y log gweithredu o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024. Nodwyd bod dau gam gweithredu wedi'u cwblhau gydag un yn parhau, i'w orffen yn yr hydref.

**PENDERFYNWYD: NODI cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol.**

## Cofnodion o Bwyllgorau Sefydlog - Minutes from Standing Committees

**Eitem 18. Cofnodion Pwyllgorau Sefydlog**
Noddwr a chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Derbyniwyd a nodwyd y cofnodion canlynol:

18.1 Cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, 24 Ionawr 2024.

18.2 Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, 21 Chwefror 2024.

18.3 Y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau, 22 Chwefror 2024.

**CAMAU GWEITHREDU:**

1. **EC i ystyried amserlennu cyfarfodydd a phwyllgorau'r dyfodol.**
2. **EC i sicrhau bod cofnodion yn cael eu derbyn mewn da bryd.**

**PENDERFYNWYD: Derbyn a NODI.**

## Cofnodion o Bwyllgorau Cynghori - Cofnodion gan Bwyllgorau Cynghori

**Eitem 19. Cofnodion Pwyllgorau Cynghori**
Noddwr a chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Derbyniwyd a nodwyd y cofnodion canlynol:

19.1 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygiad wedi'i Deilwra, 4 Mawrth 2024

19.2 Grŵp Cynghori ar Ymchwil, 13 Mawrth 2024.

Cydnabu RT colled drist yr Athro Chris Williams, a oedd wedi bod yn aelod gwerthfawr iawn o'r Grŵp Cynghori Ymchwil ers blynyddoedd lawer. Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at ei deulu.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a NODI.**

---

**Eitem 20. Unrhyw Fater Arall**

1. Mae arddangosfa'r Cymoedd bellach ar agor tan fis Tachwedd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd – argymhellir ymweliad yn fawr.
2. Trafodwyd y cynnydd yn erbyn strwythur is-bwyllgorau newydd y Bwrdd a chadarnhawyd y byddai diweddariad cynnydd ar gael yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Medi a bydd Cylch Gorchwyl yn cael ei ddychwelyd i'r Bwrdd yn y misoedd nesaf i'w gymeradwyo cyn sefydlu'r pwyllgorau newydd yn 2025.

---

**Diwedd cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd – Cau'r Cyfarfod.**